Cyllid & Thollau EF

# Enwebu rhywun i gysylltu â ni ar eich rhan

Defnyddiwch y ffurflen hon i enwebu rhywun i gysylltu â ni ar eich rhan ynglŷn â'ch Budd-dal Plant neu Lwfans Gwarcheidwad. Rydym yn cyfeirio at y person hwn fel 'cyfryngwr'. Er enghraifft, gallai hwn fod yn aelod o'r teulu, ffrind, neu'n weithiwr sy'n rhoi cymorth ac yn rhan o sefydliad megis Cyngor ar Bopeth. Nid yw'n cynnwys asiant, er enghraifft cyfrifydd proffesiynol neu ymgynghorydd treth.

## Cyfyngiadau

Gall eich cyfryngwr drafod a chael gwybodaeth gyffredinol yn unig am eich Budd-dal Plant neu Lwfans Gwarcheidwad.

Ni all ofyn am wybodaeth bersonol sydd gennym amdanoch na chael mynediad ati, na rhoi gwybod i ni am unrhyw newidiadau ar eich rhan.

Mae hyn yn unol â'r 'rheolau gwrthrych am wybodaeth' o Ddeddf Diogelu Data 2018 a'r Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data.

Mae'n dal i fod yn gyfrifoldeb arnoch chi i roi gwybod i ni ar unwaith am unrhyw newidiadau a allai effeithio ar eich hawl i gael Budd-dal Plant neu Lwfans Gwarcheidwad.

Mae'n rhaid i chi hefyd roi gwybod i ni ar unwaith os ydych am dynnu neu newid y cyfryngwr yr ydych wedi ei enwebu.

## Sut i lenwi'r ffurflen hon

Llenwch y ffurflen hon gan ddefnyddio priflythrennau. Dylech wedyn ei hanfon i'r cyfeiriad a ddangosir ar dudalen 2. Amcan y cwestiynau ar y ffurflen hon yw cadarnhau mai chi yw'r person sydd â'r hawl i'r Budd-dal Plant neu Lwfans Gwarcheidwad.

**Os oes angen help arnoch**

Am ragor o wybodaeth:

- ewch i www.gov.uk/budd-dal-plant
- ffoniwch Wasanaeth Cwsmeriaid Cymraeg CThEF ar 0300 200 1900
- defnyddwich Relay UK (os na allwch glywed na siarad dros y ffôn) 18001 ac yna 0300 300 3900

## Amdanoch chi

Atebwch yr holl gwestiynau isod.

1 **Enw olaf neu enw teuluol**

2 **Enwau cyntaf**

3 **Dyddiad geni** DD MM BBBB

4 **Rhif Yswiriant Gwladol**

5 **Cyfeiriad**

Cod post

6 **Rhif ffôn yn ystod y dydd** – gan gynnwys y cod deialu

## Ynglŷn â'r person yr ydych am ei enwebu

Atebwch yr holl gwestiynau isod os ydych yn enwebu aelod o'r teulu neu ffrind.

7 **Enw olaf neu enw teuluol**

8 **Enwau cyntaf**

9 **Dyddiad geni** DD MM BBBB

10 **Cyfeiriad**

Cod post

11 **Rhif ffôn yn ystod y dydd** – gan gynnwys y cod deialu

12 **Perthynas â chi**

## Ynglŷn â'r sefydliad yr ydych am ei enwebu

Atebwch yr holl gwestiynau isod os ydych yn enwebu sefydliad.

**13** **Enw'r sefydliad**

**14** **Cyfeiriad**

Cod post

**15** **Rhif ffôn yn ystod y dydd** – gan gynnwys y cod deialu

## Datganiad

Rwyf:

- yn awdurdodi'r unigolyn neu'r sefydliad a enwir yn y ffurflen hon i drafod materion ynglŷn â'm Budd-dal Plant neu Lwfans Gwarcheidwad
- wedi darllen neges y Ddeddf Diogelu Data, 'Sut yr ydym yn defnyddio'ch data', ac yn cytuno y gall Cyllid a Thollau EF roi gwybodaeth i'r sefydliad neu'r unigolyn a enwir ar y ffurflen hon, a siarad ag ef
- yn deall y bydd yr awdurdod hwn yn para 12 mis o'r dyddiad yr wyf yn llofnodi'r ffurflen hon, oni bai fy mod yn nodi dyddiad dod i ben cynharach yn y blwch isod
- yn cytuno i roi gwybod i CThEF am unrhyw newidiadau a allai effeithio ar fy hawl i gael Budd-dal Plant neu Lwfans Gwarcheidwad
- yn datgan bod yr wybodaeth a roddwyd gennyf ar y ffurflen hon yn gywir ac yn gyflawn hyd eithaf fy ngwybodaeth a'm cred

**Dyddiad y daw'r awdurdod i ben yn gynnar** os yw'n berthnasol

**Dyddiad** DD MM BBBB

**Llofnod**

**Enw**

## Sut yr ydym yn defnyddio'ch gwybodaeth

Mae Cyllid a Thollau EF yn Rheolwr Data o dan Ddeddf Diogelu Data 2018 a'r Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol. Rydym yn cadw gwybodaeth at y dibenion a nodir yn ein hysbysiad i'r Comisiynydd Gwybodaeth.

Mae hyn yn cynnwys asesu a chasglu treth a thollau, talu budd-daliadau, ac atal a chanfod troseddau. Efallai y byddwn yn defnyddio'r wybodaeth hon ar gyfer y dibenion hyn. Mae'n bosibl y cawn wybodaeth amdanoch gan eraill, neu efallai y byddwn yn rhoi gwybodaeth iddynt. Os gwnawn hynny, bydd yn unol â'r hyn y mae'r gyfraith yn caniatáu yn unig, a hynny er mwyn gwneud y canlynol:

- gwirio cywirdeb gwybodaeth
- atal neu ganfod troseddau
- diogelu arian cyhoeddus

Mae'n bosibl y byddwn yn gwirio'r wybodaeth a gawn amdanoch â'r hyn sydd eisoes yn ein cofnodion. Gall hyn gynnwys gwybodaeth yr ydych wedi ei rhoi i ni, yn ogystal â gwybodaeth a roddwyd i ni gan eraill. Gall hwn fod oddi wrth adrannau neu asiantaethau eraill y Llywodraeth, ac awdurdodau treth a thollau tramor. Ni fyddwn yn rhoi gwybodaeth i unrhyw un y tu allan i Gyllid a Thollau EF, oni bai bod y gyfraith yn caniatáu i ni wneud hynny.
Mae rhagor o wybodaeth i'w chael yn www.gov.uk/data-protection

## Eich hawliau a'ch ymrwymiadau

Mae Siarter CThEF yn egluro'r hyn y gallwch ei ddisgwyl gennym ni, a'r hyn a ddisgwyliwn gennych chi. I gael rhagor o wybodaeth, ewch i www.gov.uk/government/publications/hmrc-charter.cy

## Yr hyn i'w wneud nesaf

Anfonwch y ffurflen hon i:

Swyddfa Budd-dal Plant
Gwasanaeth Cwsmeriaid Cymraeg CThEF
HMRC
BX9 1ST